**Andrew RT Davies**
Aelod o'r Senedd dros
Ganol De Cymru
—
Member of the Senedd for
South Wales Central

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, [redacted]
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, [redacted]

[redacted]
[redacted]
[redacted]
[redacted]

[redacted]
Cadeirydd, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Anfonwyd drwy e-bost

19 Rhagfyr 2024

Annwyl [redacted]

Parthed: Adolygiad o Gynigion Diwygiedig Etholaethau'r Senedd 2026

Ysgrifennaf ynghylch yr uchod.

Fel y byddwch yn gwybod, bu diddordeb sylweddol ymhlith y cyhoedd ym mhenderfyniad y Comisiwn i ddewis enwau uniaith Gymraeg yn bennaf ar gyfer ei etholaethau arfaethedig. O gofio bod Cymru yn ddwyieithog, ceir pryder arbennig bod y Saesneg wedi cael ei hepgor yn y mwyafrif o achosion. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod y rhan fwyaf o bobl Cymru yn siaradwyr uniaith Saesneg, ac felly nid ydynt yn gyfarwydd â llawer o'r enwau etholaeth Cymraeg a ddewiswyd.

Er bod enwau uniaith Gymraeg yn briodol mewn rhai achosion, byddant yn achosi dryswch sylweddol mewn eraill. Er enghraifft, bydd etholaeth arfaethedig Clwyd yn cael ei adnabod yn dda yn lleol, gan ei bod yn cymryd ei henw o sir a gadwyd Clwyd a'r afon o'r un enw sy'n llifo drwy'r ardal. Fodd bynnag, yn fy mro gartref, mae etholaeth arfaethedig y Comisiwn yn cyfuno seddi seneddol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. *"Pen-y-bont Bro Morgannwg"* yw enw arfaethedig yr etholaeth hon. Mae hon yn ardal lle mae prin 10% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg, ac nad yw'r enwau lleoedd Cymraeg priodol yn cael eu hadnabod na'u defnyddio yn eang.

Mae canran y pleidleiswyr yn etholiadau'r Senedd yn ddiarhebol o wael, â llai na hanner yr etholaeth gymwys yn bwrw eu pleidleisiau. A dweud y gwir, nid yw canran y pleidleiswyr erioed wedi bod yn fwy na 50% mewn etholiad datganoledig yng Nghymru. I fod yn eglur, rwyf o blaid y Gymraeg, ond bydd defnyddio enwau etholaeth uniaith Gymraeg nad ydynt yn cael eu defnyddio'n gyffredin yn yr ardal leol yn achosi dryswch sylweddol. Bydd hyn yn cael yr effaith o ddifreinio siaradwyr uniaith Saesneg. Mae hyn oherwydd bod pobl yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn proses y mae ganddynt ymdeimlad o berthyn neu le ynddi. Mae dewis enwau etholaeth y mae pobl yn gyfarwydd â nhw yn hollbwysig felly.

O'r ohebiaeth yr wyf i wedi ei derbyn, ceir tybiaeth hefyd ei fod yn ddewis bwriadol defnyddio enwau etholaeth uniaith Gymraeg, gyda'r effaith fwriadol o ddylanwadu ar ganran y pleidleiswyr i sicrhau canlyniad etholiad dymunol tybiedig. Am resymau amlwg, nid yw hon yn dybiaeth y gellir caniatáu iddi gydio.

Mae'n hanfodol felly bod yr enwau etholaeth arfaethedig yn cael eu newid i gynnwys yr enwau Saesneg cyfatebol hefyd. Yn sgil hynny, rwy'n annog y Comisiwn i roi sylw i hyn yn ei gynigion terfynol.

Diolch am roi o'ch amser i ystyried fy sylwadau, ac edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

[redacted]

Andrew RT Davies AS
AS Rhanbarthol Canol De Cymru